
Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 32. Tanysgrifiad blynyddol i'r Ysgrifennydd £2. AWST 87

# Hwyl hen ŵyl Port y Brifwyl



Syr Watkin Williams Wynn o'r Wynnstay yn cael ei dderbyn i'r Orsedd fel 'Eryr Eryrod Eryri' yn steddfod fawr bro Madog yn 1872.

Gwel tudalen 10

## DA A DRWG

Y CYHOEDDIADAU i ddechrau - ond daliwch i ddarllen. Yn gyntaf, y Brifwyl yn y Port. Fel arfer bydd gyrr ohonoch yn talu'ch tâl aelodaeth ym Mhabell Gwasg Gwynedd ar y Maes. Fedrwch chi ddim gwneud hynny eleni - am nad oes yna'r un. Felly - argraffwch hyn ar lech eich calon - fe drefnwyd i dderbyn eich arian ym Mhabell siop lyfrau YR HEN BOST (Blaenau Ffestiniog). Fe'ch croesewir â phwrs agored yma. Cofiwch - PABELL YR HEN BOST.

Yn ail - darlith flynyddol Cymdeithas Bob Owen. Am ddeg fore Gwener yn y Babell Lên. Llenwch hi i wrando ar Dewi Williams - sy'n gyfaill da iawn i'r Casglwr - yn trafod y chwilotwr a'r casglwr a'r cymeriad hynod di-flewyn-ar-dafod hwnnw - MYRDDIN FARDD; gŵr sy'n dal i aros am y Cofiant a haedda.

### Y TÂL

Yn awr, ysywaeth rhaid troi at destun mwy annymunol - maint y tâl aelodaeth. Am un mlynedd ar ddeg fe lynwyd fel gele wrth y tâl gwreiddiol, ar waetha'r chwyddiant. Ond ymddengys bron yn sicr y bydd yn rhaid cael codiad at y flwyddyn nesaf. Ar y funud cael a chael yw i ni gadw'n pen - ac i Gyngor y Celfyddydau mae'r diolch am y gamp.

Mae'n amhosibl cwtogi ar ein costau am nad oes yna gostau ar wahân i dalu i'r post a'r argraffwyr a rhyw bitw annheilwng iawn i'r cyfranwyr a fu mor ffyddlon.

### BWGAN

Y post yw'r bwgan mawr. Y stamp ugain ceiniog yn mynd a mwy na dau gan punt am wasanaeth gwael. Amlenni (wyth geiniog yr un) yn gwneud y ddau gant yn dri. Cost argraffu'n mynd a'r cyfan yn glir dros y mil. Gwnewch y sym (cylchrediad tros un cant ar ddeg ac ar gynnydd) ac fe welwch ein pwynt. Ofn felly yr â'ch dwy bunt yn dair. Ond pob aelod newydd i gael *Y Casglwr* am eleni a'r flwyddyn nesaf am dair punt, deued a ddelo.